CANLYNIAD Y BROSES GAFFAEL:
MEDDYGFA GELLIGAER SURGERY

CWESTIYNAU CYFFREDIN

C1 Beth mae'r canlyniad yn ei olygu i mi a/neu fy nheulu?

Bydd yr holl gleifion presennol yn aros wedi'u cofrestru ym Meddygfa Gelligaer. O 1 Ionawr 2027, byddwch yn parhau i gael mynediad at eich holl anghenion gofal iechyd o'r safle yn Heol Penallta, Hengoed.

Bydd rhif ffôn cleifion hefyd yn aros yn yr un fath, a byddwch yn parhau i allu cysylltu â'ch practis meddyg teulu ar 01443 802186, neu ar-lein drwy https://www.lliswerrymedicalcentre.co.uk/

C2 A fyddaf yn dal i allu gweld fy meddyg teulu arferol neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall ym Meddygfa Gelligaer Surgery?

Bydd yr holl staff, clinigwyr a staff gweinyddol/derbynfa a gaiff eu cyflogi gan y practis yn aros ym Meddygfa Gelligaer Surgery o dan reolaeth newydd.

Ch3 A fydd unrhyw newidiadau i'r ffordd rydw i'n archebu fy mhresgripsiwn amlroddadwy misol?

Nid yw'r partneriaid newydd yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol. Mae'r partneriaid yn dymuno sicrhau cleifion y bydd unrhyw newidiadau i brosesau yn cael eu gwneud er budd cleifion. Bydd y partneriaid yn ymgysylltu â chynrychiolwyr cleifion ac yn cyfathrebu unrhyw newidiadau'n glir.

C4 A fydd fy ngofal meddygol neu driniaeth bresennol yn cael ei amharu?

Na. Bydd yr holl ofal cleifion yn parhau ac mae'r partneriaid newydd yn ymroddedig i sicrhau bod gofal rhagorol yn cael ei ddarparu i gleifion.

C5 Beth os nad ydw i'n dymuno parhau i fod wedi cofrestru ym Meddygfa Gelligaer Surgery? Sut ydw i'n cofrestru gyda darparwr arall os ydw i'n dewis gwneud hynny?

Gallwch ddewis cofrestru gyda phractis cyfagos arall os ydych yn dymuno gwneud hynny, ac ar yr amod eich bod yn byw o fewn ffiniau'r practis dan sylw. Mae Meddygfa Bryntirion, Meddygfa Oakfield Street, Meddygfa Nelson, Canolfan Iechyd Pengam, Meddygfa South Street a Chanolfan Iechyd Pontllanfraith yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i gleifion sy'n byw yn

ardal Gelligaer a'r ardaloedd cyfagos, fodd bynnag bydd angen cadarnhau'r union ffiniau wrth ofyn am gofrestru yn y feddygfa.

Meddygfa Bryntirion	01443 830796
Meddygfa Oakfield Street	01443 812979
Meddygfa Nelson	01443 450340
Canolfan Iechyd Pengam	01443 834672
Meddygfa South Street	01443 821255
Canolfan Iechyd Pontllanfraith	01495 227131

Gallwch gysylltu â'r feddygfa o'ch dewis yn uniongyrchol a gwneud cais i gofrestru gyda hwy, a byddant yn gallu eich cefnogi drwy'r broses gofrestru. Fel arall, gall aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol eich cefnogi gyda hyn, os yw'n well gennych. Gallwch ffonio 01495 241258 neu 01495 241293.

C6 A allaf wneud unrhyw beth i helpu?

Y cyngor cyffredinol i unrhyw un sy'n ystyried gwneud apwyntiad gyda'r practis fyddai ystyried:

- A oes angen i mi weld meddyg, neu a oes modd i mi ofyn am weld aelod gwahanol o'r tîm gofal iechyd, ee nyrs practis, uwch ymarferydd ac ati?
- A oes modd i mi ymweld â fferyllfa yn hytrach na'r practis?
- Oeddech chi'n gwybod am Gynllun Anhwylderau Cyffredin Fferyllfeydd Cymunedol?

Mae cynllun anhwylderau cyffredin fferylliaeth gymunedol yn gynllun ar gyfer cleifion sy'n gallu ymgynghori â fferyllfa gymunedol sy'n rhan o'r cynllun, yn hytrach na'u meddyg teulu. Mae **rhestr benodol** ar gael o anhwylderau cyffredin na fyddai angen i nyrs neu feddyg eu gweld o bosibl. Bydd y fferyllydd yn rhoi meddyginiaeth o fformiwlari y cytunwyd arno, yn rhoi cyngor neu'n cyfeirio'r claf at y meddyg teulu os oes angen. **Darperir meddyginiaethau am ddim.**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn eich fferyllfa leol neu drwy https://abuhb.nhs.wales/hospitals/pharmacies-chemists/common-ailments-service/